

**Beirniad – Eifion Lloyd Jones**

Siomedig oedd derbyn tair ymgais yn unig, ond braf gweld eu safon.  
Dwy gerdd/telyneg yn y wers rydd ac un ar fydr ac odl.

“**Olion**” – colli cariad yw’r thema, hen neges sy’n newydd i rywun bob tro.

Dyma 4 pennill 4 llinell sy’n odli fesul cwpled, ond heb gysondeb rhwng unsill neu ddeusill yr odl. Er hynny, mae ambell gwpled yn llifo’n hyfryd, fel yr olaf:

*Mae dagrau’r glaw yn cadarnhau / y bydd y golled yn parhau.*

“**Annibynnol**” – y mewnlifiad Saesneg yn difa cymdeithas yw’r thema; neges gyfarwydd eto, ond fod y dweud yn grefftus o ran iaith a delwedd. Mae’r dderwen wedi cynnal a ffrwythloni’r famwlad a’r famiaith a’i sudd yng ngwaed y cenedlaethau. Yna, daeth y ddrycin ddieithr i ddryllio’r gymuned yn gonffeti “*a’r tir a’r creodd bellach yn ddiffryth*”.

Cymharir llafariad llyfn y tir brodorol â chleician cytseiniaid estron sy’n

*hawlio ein cartrefi am grobris / a’n gwanhau, / ein gwahanu a’n concro.*

“**Gartheithin**” – trais y llofruddio ar strydoedd y dinasoedd sydd yma, y thema fwyaf newydd o ddigon a “*hunllef mwyaf fy nghenedlaeth i*”. Mae’r dweud yn effeithiol o blaen, y lluniau’n boenus o fyw, a’r realaeth yn greulon o wir am “*un arall o’n bechgyn yn gelain*”. Plaen, poenus a chreulon hefyd ydi’r “*aros am ateb gwell / heb wybod beth ydy’r cwestiwn*”.

Bûm yn pendroni llawer rhwng y ddwy gerdd rydd, gan roi’r wobr yn y diwedd am gyfres o ddelweddau cyfoethog Annibynnol:

1. Annibynnol
2. Gartheithin
3. Olion